# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

<table>
<tr><th colspan="3">RHYBUDD O GYFARFOD</th><th colspan="3">NOTICE OF MEETING</th></tr>
<tr><td colspan="3">PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL</td><td colspan="3">DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE</td></tr>
<tr><td colspan="3">DYDD LLUN, 4 CHWEFROR 2013 am 4.00 o'r gloch</td><td colspan="3">MONDAY, 4 FEBRUARY, 2013 at 4.00p.m</td></tr>
<tr><td colspan="3">YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI</td><td colspan="3">COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI</td></tr>
<tr><td colspan="2">Swyddog Pwyllgor</td><td colspan="2">Mrs. Mairwen Hughes<br>(01248) 752 516</td><td colspan="2">Committee Officer</td></tr>
</table>

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol Gwreiddiol/Original Independent**

A M Jones, Eric Roberts, G W Roberts OBE, E Schofield a Ieuan Williams

**Llafur / Labour**

C Ll Everett

**Llais i Fôn**

S Williams

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Mrs Fflur Hughes, W I Hughes

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

H E Jones

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 2)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 17 Rhagfyr, 2012.

3 **GOBLYGIADAU I'R GWASANAETHAU DEMOCRATIADD MEWN PERTHYNAS AC ARGYMHELLION Y GYLLIDEB AR GYFER 2013/14** (Tudalennau 3 - 4)

(a) Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd Dros Dro.

(b) Gofynnir i'r Aelodau ddod gyda hwy i'r cyfarfod, gopi o'r ddogfen Ymgynghori ar y Gyllideb.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN YR AELODAU** (Tudalennau 5 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd Dros Dro.

5 **E-DDEMOCRATIAETH TGCH I AELODAU** (I Ddilyn)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau TGCh.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr, 2012

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd H. Eifion Jones – Cadeirydd<br><br>Cynghorwyr W. I. Hughes, A. M. Jones, Eric Roberts, G. W. Roberts OBE, Elwyn Schofield, Ieuan Williams, Selwyn Williams. |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd,<br>Uwch Swyddog Datblygu (MW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Cynghorydd Fflur M. Hughes. |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Cynghorydd W.J. Chorlton – Arweinydd Grwp (Wedi i wahodd).<br>Ms. Sarah Titcombe – Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Hydref 2012.

Lleisiwyd y materion canlyn gan yr Aelodau :-

- Roedd angen Ymgysylltiad Cymunedol Effeithiol yng nghyswllt rhoi gwybodaeth i'r etholaeth leol am y weithdrefn etholiadol yn yr Etholiadau Cyngor Sir nesaf ym Mai 2013 h.y. 2/3 pleidlais mewn ardaloedd etholiadol;
- Mae angen i Gofrestrau Etholiadol fod ar gael i ymgeiswyr tebygol yn Etholiadau'r Cyngor Sir mor fuan ag sy'n bosibl.

Cafwyd ymateb gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd a nodwyd y byddai'n dod â'r materion hyn i sylw'r Swyddog Canlyniadau.

**3 CYNLLUN GWAITH DATBLYGU AELODAU**

3.1 Cyflwynwyd - adroddiad gan yr Uwch Swyddog Datblygu mewn perthynas â throsolwg o'r cynnydd a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf gyda hyfforddiant Datblygu Aelodau a nodwyd bod Grŵp Datblygu Aelodau wedi cael ei sefydlu i wella'r ffocws ar Ddatblygiad Aelodau yn ystod y cyfnod adfer.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Datblygu i'r cyfrifoldeb am ddatblygiad Aelodau bellach gael ei drosglwyddo i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a hynny oherwydd newidiadau i'r Mesur Lleol Llywodraeth Leol (2011). Bydd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol hefyd yn parhau i drefnu ac i gefnogi hyfforddiant i Aelodau.

Gofynnwyd cwestiynau am y ffioedd y mae'r Awdurdod yn eu talu am hyfforddiant a hefyd i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

**PENDERFYNWYD bod adroddiad yn cael ei gyflwyno yn rhoi dadansoddiad o'r taliadau a wnaed yng nghyswllt hyfforddi aelodau etholedig i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.**

3.2 Cyflwynwyd – er gwybodaeth, adroddiad ar Hyfforddiant i Aelodau gan y Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Safonau ar 31 Hydref 2012.

Nododd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd bod y Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2012 wedi nodi pryderon ynglŷn â lefelau presenoldeb yr Aelodau mewn Sesiynau Hyfforddi a'r angen i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Roedd yr Aelodau yn ystyried y byddai'n briodol gwahodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i drafod presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi, ar ôl Etholiadau'r Cyngor Sir ym Mai 2013.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

## 4 SIARTER CYMRU AR GYFER CEFNOGAETH A DATBLYGIAD AELODAU

Cafwyd cyflwyniad gan Ms. Sarah Titcombe, Cynghorydd Sefydliadol a Datblygu Personol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r uchod. Roedd copi o'r Meini Prawf Asesu Siarter ynghlwm er sylw'r Aelodau.

Rhoddodd Ms Titcombe y cefndir i'r Siarter sydd yn ddyfarniad a ddatblygwyd gan Aelodau a Swyddogion trwy Gymru gyfan ac a gyflwynir i awdurdodau mewn cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth a ddarperir i Aelodau. Nododd bod 3 lefel i'r Siarter h.y. Siarter, Siarter Uwch a Dyfarniad Arfer Dda ac Arloesedd.

Nododd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd mai'r gobaith oedd y byddai'r Awdurdod yn gallu cyrraedd Lefel 1 y Siarter erbyn Etholiadau nesaf y Cyngor Sir ym Mai 2013 ac roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn darparu cefnogaeth cymheiriaid i adolygu cynnydd y Cyngor gyda chyfarfod â'r safonau a osodir yn y Siarter. Fel rhan o gefnogaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru bydd cymorth hefyd yn cael ei ddarparu i adolygu'r arferion gweithio cyfredol, a'r sustemau a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi Aelodau i fod yn barod am y Cyngor newydd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad**.

## 5 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd yng nghyswllt Rhaglen Waith y Pwyllgor.

Cynigiodd y Pennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democrataidd y dylai'r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar y materion a ganlyn :-

- Adroddiad Cynnydd ar y cais Siarter Datblygu Aelodau;
- Darpariaeth TGCh i Aelodau yn cynnwys gwefan y Cyngor i hyrwyddo democratiaeth;
- Y Goblygiadau i'r Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â chynigion cyllideb 2013/14;
- Anwytho Aelodau (Mai 2013 ymlaen).

Nododd y Swyddog ymhellach bod y Gweinidog Dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn ddiweddar wedi cysylltu â phob awdurdod lleol i geisio cael gwybodaeth ar ddarlledu eu Pwyllgorau yn y dyfodol ac y dylai hyn gael ei ystyried yn ei dro gan y Pwyllgor.

Materion a leisiwyd gan yr Aelodau :-

- Mae angen cael eitem ar Ymgysylltiad Cymunedol ar bob Rhaglen mewn perthynas â'r etholiadau lleol sydd ar ddod;
- Protocolau mewn perthynas â phenodi Cadeiryddion Pwyllgorau yn dilyn etholiadau Mai 2013.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r eitemau a nodwyd uchod i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.**

**CYNGHORYDD H. EIFION JONES**
**CADEIRYDD**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR: | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD Y PWYLLGOR: | 4 CHWEFROR 2013 |
| TEITL: | YMGYNGHORI AR Y CYNIGION AR GYFER CYLLIDEB 2013/14 – GOBLYGIADAU I'R GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| AWDUR: | PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO |

Fel rhan o'i Raglen Waith, mae'r Pwyllgor wedi cytuno ei fod yn ystyried y goblygiadau i'r Gwasanaethau Democrataidd yn sgil y cynigion ar gyfer Cyllideb 2013/14.

Mae'r cynigion arbedion mewn perthynas â'r Gwasanaethau Democrataidd wedi eu cynnwys dan Adran y Dirprwy Brif Weithredwr a'r dudalen 12 y ddogfen ymgynghori. Mae'r agweddau hyn eisoes wedi cael sylw gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar 28 Ionawr 2013.

Ac eithrio'r gostyngiad mewn perthynas â lwfansau'r Aelodau yn unig fater a ddygir i sylw'r Pwyllgor hwn yw cynigion i wneud arbedion trwy roi gorau i ddefnyddio amlenni yn yr Awdurdod lle mae'r costau postio wedi eu talu ymlaen llaw.

Ers 1996 darparwyd i'r Aelodau, ar gais, amlenni gyda'r costau postio wedi ei dalu ymlaen llaw fel bod modd i'r Aelodau hynny gyflawni eu dyletswyddau. Mae nifer yr Aelodau sy'n defnyddio amlenni o'r fath wedi gostwng yn sylweddol ac yn ystod 2011/12 dim ond 6 o Aelodau ofynnodd am yr amlenni hyn. Costiodd hynny £185.

Mae canllawiau ar gefnogi gwaith Aelodau Awdurdodau Lleol wedi eu hamlinellu yn Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Dywed yr adroddiad "*"Rhaid i awdurdod lleol ddarparu unrhyw gymorth a ystyrir yn angenrheidiol (ee, ffôn, costau postio, cyfarpar TG) i helpu aelodau unigol i gyflawni'u Dyletswyddau".*

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu, heb godi tâl, cefnogaeth i Aelodau fel a ganlyn:

- Offer TGCh – 'iPad' (cynllun peilot ar gyfer y Pwyllgor Gwaith), gliniaduron, peiriannau agraffu a nwyddau traul
- Band llydan a llinellau ffôn
- Deunydd ysgrifennu, ar gais

- Gwasanaeth postio

O gofio ein bod mewn cyfnod o gynni ariannol, efallai bydd y Pwyllgor yn dymuno gwneud sylwadau ar yr ystod o wasanaethau a ddarperir ar gyfer Aelodau, fel y nodir uchod, a pha gyfraniad y gallai Aelodau ei wneud i'r agenda effeithlonrwydd.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**25/01/13**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR: | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD Y PWYLLGOR: | 4 CHWEFROR 2013 |
| TEITL: | ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU |
| AWDUR: | PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO |

1.1 Mae Mesur Llywodraeth Lleol Cymru (2011) yn nodi:-

*"(1) Rhaid i awdurdod lleol* ***wneud trefniadau—***

*(a) i bob person sy'n aelod o'r awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r awdurdod yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad*
*yn ymwneud â hi,*

*(b) i bob person sy'n aelod o weithrediaeth yr awdurdod lunio adroddiad blynyddol ynghylch gweithgareddau'r person fel aelod o'r weithrediaeth yn ystod y flwyddyn y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi, ac*

*(c) i'r awdurdod gyhoeddi pob adroddiad blynyddol sy'n cael ei lunio gan ei aelodau a chan aelodau ei weithrediaeth.*

*(2) Caiff y trefniadau gynnwys amodau o ran cynnwys adroddiad y mae'n rhaid iddynt gael eu bodloni gan y person sydd yn ei lunio.*

*(3) Rhaid i awdurdod lleol roi cyhoeddusrwydd i'w drefniadau.*

*(4) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon rhaid i awdurdod lleol roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru."*

1.2 Bwriad yr Adroddiad Blynyddol gan yr Aelodau Etholedig yw gwella cyfathrebu rhwng Aelodau Etholedig a'r cyheodd. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol yn nodi y bydd yr adroddiadau yn gyfrwng i wella dealltwriaeth y cyhoedd o'r hyn y mae eu aelodau lleol yn ei wneud a'r rôl bwysig sydd ganddynt. Mae hefyd wedi nodi y bydd yn rhydd i bob awdurdod lleol ddewis eu fformat eu hunain ar gyfer yr adroddiadau.

1.3 Mae canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y Mesur yn nodi y disgwylir i'r adroddiadau blynyddol gael eu cynhyrchu erbyn Mehefin 2013 ar weithgareddau sydd yn ymwneud a'r flwyddyn sirol flaenorol.

1.4 O gofio bod yr Etholiadau Lleol i'w cynnal yn Ynys Môn ym Mai 2013, cafwyd cadarnhad yn awr gan Lywodraeth Cymru bod angen i'r Cyngor hwn gynhyrchu'r adroddiadau blynyddol erbyn Mehefin 2014.

2.0 **ARGYMHELLIAD**

2.1 Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor hwn nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar ôl etholiadau Mai 2013 yn amlinellu templed posib i'r Aelodau baratoi adroddiad blynyddol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**25/01/13**